**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Rebecca Evans AC
y Gweinidog Tai ac Adfywio

8 Rhagfyr 2017

Annwyl Rebecca

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

Byddwch yn ymwybodol i'r Pwyllgor Busnes, ar 11 Gorffennaf 2017, gyfeirio Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w ystyried. Gan fod elfennau o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, cafodd ei ystyried gan ein Pwyllgor ni hefyd.

Fe wnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad ar nifer o faterion, gan gynnwys i ba raddau y mae'r darpariaethau a nodir yn y Memorandwm o dan Addysg a Hyfforddiant, Lles Cymdeithasol, a datblygu economaidd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Nid oedd yr ymateb yn ymdrin â'r eglurhad hwn. (Amgaeir gopïau o'r ddau lythyr).

Wrth adrodd ar y Memorandwm, dywedasom nad oedd rheswm pam y dylai'r Cynulliad wrthod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ond y gallai Aelodau ddymuno gofyn am eglurder yn ystod y ddadl ar y mater hwn. Gan nad yw'r ddadl ar y Memorandwm wedi digwydd eto, mae'r eglurhad hwn yn dal heb ei roi.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Cawsom lythyr gan y Pwyllgor Busnes ar 6 Rhagfyr yn gofyn a allem ystyried y Memorandwm atodol erbyn 9 Ionawr. Yn ein cyfarfod ar 7 Rhagfyr, gwnaethom ystyried y cais hwn, a chytuno i wneud ein gorau i sicrhau bod y Memorandwm atodol yn cael ei ystyried yn gyflym. I'r perwyl hwn, byddwn yn ei gyflwyno i'w ystyried yn y cyfarfod ar 13 Rhagfyr, er mwyn sicrhau, os caiff ei gyfeirio atom, y gallwn ei ystyried cyn y Nadolig. Fodd bynnag, oherwydd bod mater sy'n weddill o hyd, gofynnwn i chi roi eglurhad ysgrifenedig ar y mater sy'n weddill cyn gynted â phosibl, ond heb fod yn hwyrach na 2 Ionawr.

Gan fod llythyr y Llywydd yn nodi y bydd amser i graffu arno mewn pwyllgor, byddem yn awgrymu y rhoddir amser i'n galluogi i ystyried eich ymateb cyn adrodd cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn. Credwn y gellid gwneud hyn pe bai'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei symud yn ôl i 16 Ionawr. Byddai hyn yn rhoi pedair wythnos eistedd i ni ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, sy'n dal yn llai na'r cyfnod o chwe wythnos y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddo o'r blaen ar gyfer craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

Yn gywir

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English